# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Cwmbran Dental Spa, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Dyddiad yr arolygiad: 12 Chwefror 2018

Dyddiad cyhoeddi: 14 Mai 2018

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Y Rheolwr Cyfathrebu**

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**

**Parc Busnes Rhyd-y-car**

**Merthyr Tudful**

**CF48 1UZ**


Neu drwy


**Ffôn: 0300 062 8163**

**E-bost: hiw@gov.wales**

**Ffacs: 0300 062 8387**
**Gwefan: www.agic.org.uk**



ISBN Digidol 978-1-78903-990-0



© Hawlfraint y Goron 2018

## Cynnwys


1. Yr hyn a wnaethom ... 5

2. Crynodeb o'n harolygiad ... 6

3. Yr hyn a ganfuom ... 7

    Ansawdd profiad y claf ... 8

    Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol ... 13

    Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth ... 19

4. Beth nesaf? ... 21

5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol ... 22

    Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad ... 23

    Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith ... 24

    Atodiad C – Cynllun gwella ... 25

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r corff annibynnol sy'n arolygu ac yn rheoleiddio gofal iechyd yng Nghymru**

# Ein diben

**Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.**

# Ein gwerthoedd

- **Canolbwyntio ar y claf: rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud**
- **Uniondeb: mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest**
- **Annibynnol: rydym yn gweithredu a gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn**
- **Cydweithredol: rydym yn datblygu partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol**
- **Proffesiynol: mae ein dull gweithredu yn effeithiol, effeithlon a chyfrannol.**

# Ein blaenoriaethau

**Ein nod trwy ein gwaith yw:**

| | |
|---|---|
| **Darparu sicrwydd:** | **Cynnig safbwynt annibynnol ar ansawdd y gofal.** |
| **Hybu gwelliant:** | **Annog gwelliant trwy adrodd a rhannu arfer da.** |
| **Dylanwadu ar bolisi a safonau:** | **Defnyddio'r hyn yr ydym yn ei ddarganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.** |

# 1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Cwmbran Dental Spa yn 2 Ashford Close, Croesyceiliog, Cwmbrân NP44 2AZ, o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ar 12 Chwefror 2018.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys arolygydd AGIC ac adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Gwnaeth AGIC archwilio sut roedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â Safonau Iechyd a Gofal 2015, Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011, a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Gellir gweld manylion pellach ynglŷn â'n dull o gynnal arolygiadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

# 2. Crynodeb o'n harolygiad

Ar y cyfan, canfuom dystiolaeth bod Cwmbran Dental Spa yn darparu gwasanaeth cyfeillgar a phroffesiynol i'w gleifion.

Roedd y practis yn canolbwyntio ar y claf ac roedd ganddo bolisïau a gweithdrefnau priodol ar waith i sicrhau diogelwch staff a chleifion.

Gwnaethom nodi bod y practis yn lân ac yn daclus a gwelsom ddogfennau yn dangos bod yr offer deintyddol yn cael ei gynnal a'i gadw a'i wasanaethu'n rheolaidd.

Mae angen i'r practis sicrhau bod cofnodion cleifion yn cael eu cynnal yn unol â safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion.

Gwelsom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd y staff yn rhyngweithio'n broffesiynol â chleifion ac yn gyfeillgar ac yn gwrtais tuag atynt
- Roedd offer deintyddol yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda ac yn cael eu gwasanaethu'n rheolaidd
- Roedd cyfleusterau clinigol yn llawn cyfarpar ac roeddent yn weledol lân ac yn daclus

Rydym yn argymell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau bod y gwelededd trwy ffenestri'r ddeintyddfa a'r drysau Ffrengig yn cael ei gyfyngu i gynnal preifatrwydd ac urddas cleifion wrth dderbyn triniaeth
- Sicrhau bod chwistrellau a chetris anesthetig lleol yn cael eu storio'n ddiogel
- Rhaid cadw cofnodion cleifion yn unol â safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion, sef Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Chanllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol

# 3. Yr hyn a ganfuom

## Cefndir y gwasanaeth

Mae Cwmbran Dental Spa yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Cwmbran . Mae'r practis yn rhan o wasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

Mae gan y practis dîm staff sy'n cynnwys tri deintydd, un hylenydd, un nyrs deintyddol, dau nyrs deintyddol dan hyfforddiant a rheolwr practis.

Mae'r practis yn darparu amrediad o wasanaethau deintyddol y GIG a gwasanaethau deintyddol cyffredinol preifat.

## Ansawdd profiad y claf

*Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.*

Canfuom fod y practis wedi ymrwymo i ddarparu profiad cadarnhaol i'w cleifion a gwelsom staff yn bod yn broffesiynol ac yn gwrtais tuag at gleifion.

Mae'r practis yn chwilio am adborth gan gleifion trwy wahodd cleifion i gynnig awgrymiadau yn y blwch a ddarperir yn y man aros ond mae angen iddo ddatblygu system ar gyfer cofnodi adborth anffurfiol/llafar gan gleifion.

Nododd cleifion a gwblhaodd holiaduron AGIC eu bod yn fodlon ar y gofal a'r driniaeth yr oeddent wedi'u derbyn.

Cyn yr arolygiad, gwahoddom y practis i ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion, er mwyn cael eu barn am y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Cwblhawyd cyfanswm o 31.

Ar y cyfan, roedd yr adborth gan gleifion yn yr holiaduron yn gadarnhaol. Rhoddodd cleifion y sylwadau canlynol yn yr holiaduron:

> *Mae bob amser wedi rhoi gofal ardderchog i mi cyn ac ar ôl unrhyw driniaeth a gefais.*
>
> Mae'r ddau ddeintydd, hylenydd, nyrsys deintyddol mor broffesiynol ym mhob agwedd.*Mae'r awyrgylch yn gyfeillgar ac yn gartrefol.Deintyddfa gyda gwahaniaeth.*
>
> *Esboniadau clir rhagorol gan y deintydd am fy iechyd deintyddol a'r gwaith sydd i'w wneud.Staff cyfeillgar iawn.Y ddeintyddfa orau rydw i wedi bod iddi mewn 40 mlynedd.*

Gofynnwyd i'r cleifion yn yr holiaduron sut y gallai'r practis deintyddol wella'r gwasanaeth a ddarperir ganddo. Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys y canlynol:

> *Efallai diwrnodau ychwanegol i gleifion y GIG.*

*Amseroedd apwyntiadau mwy hyblyg, ee hwyr y prynhawn/yn gynnar gyda'r nos*

## Cadw’n iach

Yn y man aros gwelsom fod detholiad o daflenni gwybodaeth hybu iechyd ar gael i gleifion eu darllen a/neu fynd â nhw. Roedd y rhain yn cynnwys taflenni gwybodaeth ynghylch triniaethau a chyngor ataliol.

Dywedodd pob un o'r 31 o gleifion a gwblhaodd holiadur wrthym fod y tîm deintyddol wedi siarad â nhw ynghylch sut i gadw eu ceg a'u dannedd yn iach.

## Gofal ag urddas

Dywedodd pob claf a gwblhaodd holiadur ei fod wedi cael ei drin â pharch wrth ymweld â'r practis.

Dywedodd staff wrthym, os oedd angen cael sgwrs breifat gyda chlaf, y gellid gwneud hyn yn y swyddfa fach y tu ôl i'r dderbynfa. Gellid gwneud galwadau ffôn o'r swyddfa honno hefyd, gan roi preifatrwydd i’r claf unwaith eto.

Roedd gan bob ystafell driniaeth ddrysau a gwnaethom nodi yn ystod yr arolygiad eu bod yn cael eu cau tra bod claf yn derbyn triniaeth. Roedd y tair ystafell driniaeth wedi'u lleoli ar y llawr gwaelod. Roedd gan un ystafell driniaeth ddrysau Ffrengig a oedd yn agor i'r ardd yng nghefn y practis. Nid oedd unrhyw fleinds na gwydr anrhyloyw a oedd yn golygu y byddai'n bosibl i gymydog weld i mewn i'r ystafell o'u gardd. Er bod coed wedi cael eu plannu ar y ffin roedd bylchau mawr o hyd. Roedd gan y ddwy ystafell driniaeth arall ffenestri heb eu gorchuddio a gallai aelod o'r cyhoedd gerdded o gwmpas yr adeilad a gallu gweld i mewn i bob un o'r tair ystafell driniaeth. Rydym yn argymell bod y practis yn cymryd camau i sicrhau nad yw'n bosibl i aelodau'r cyhoedd edrych i mewn i'r ystafelloedd triniaeth.

Yr hyn y mae angen ei wella

Y practis i gynnal preifatrwydd ac urddas cleifion wrth iddynt dderbyn triniaeth trwy sicrhau na fyddai'n bosib edrych i mewn i'r ystafelloedd triniaeth o'r tu allan.

### Gwybodaeth i gleifion

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod yn teimlo'n rhan o'r penderfyniadau a wneir ynghylch eu triniaeth i'r graddau yr oeddent yn dymuno. Dywedodd pob un ond un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur, pan fydd angen triniaeth arnynt, bod y tîm deintyddol yn eu helpu i ddeall yr holl opsiynau sydd ar gael.

Dywedodd y mwyafrif o gleifion a gwblhaodd holiadur fod cost unrhyw driniaeth yn cael ei hesbonio iddynt cyn iddynt dderbyn unrhyw driniaeth a gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn deall sut y cyfrifwyd cost eu triniaeth.

Gwelsom restrau prisiau sy'n dangos costau triniaeth ddeintyddol y GIG a chostau triniaeth ddeintyddol breifat yn y man aros.

Roedd manylion y deintyddion yn y practis a'u horiau agor priodol yn cael eu harddangos ym mhrif fynedfa'r practis

### Cyfathrebu'n effeithiol

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod bob amser yn gallu siarad â staff yn eu dewis iaith.

Roedd gan y practis wefan a oedd yn cynnwys manylion triniaethau deintyddol y GIG a phreifat y mae'n eu darparu, ynghyd â rhestrau prisiau priodol. Roedd hefyd yn rhoi arweiniad ar wneud cwyn, manylion tîm y practis, oriau agor a rhifau ffôn cyswllt y tu allan i oriau.

## Gofal amserol

Dywedodd bron dau o bob tri o'r cleifion a gwblhaodd holiadur y byddent yn gwybod sut i gael mynediad at y gwasanaethau deintyddol y tu allan i oriau os oedd ganddynt broblem ddeintyddol frys. Roedd manylion am sut y gallai cleifion gael mynediad i ofal deintyddol brys pan oedd y practis ar gau yn cael eu harddangos tu allan i'r practis. Roedd y wybodaeth hon hefyd yn cael ei darparu ar neges peiriant ateb y practis ac ar wefan y practis.

Yn ystod ei oriau agor roedd y practis yn gwneud ymdrechion i sicrhau bod cleifion yn cael eu gweld yn brydlon. Dywedodd staff wrthym, pe bai oedi gyda'r deintydd, y byddent yn siarad â'r cleifion i roi gwybod iddynt am unrhyw oedi.

## Gofal unigol

### Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Cadarnhaodd mwyafrif y cleifion a gwblhaodd holiadur fod y deintydd yn gofyn iddynt am eu hanes meddygol cyn gwneud unrhyw driniaeth.

### Hawliau pobl

Canfuom fod mynediad i'r practis yn dda. Arweiniodd llethr at y brif fynedfa i alluogi cleifion mewn cadeiriau olwyn i fynd i mewn. Roedd y man aros, y dderbynfa a'r ystafelloedd triniaeth i gyd ar y llawr gwaelod.

Roedd toiled ar gyfer cleifion ar y llawr gwaelod a oedd yn darparu cyfleusterau ar gyfer cleifion ag anawsterau symudedd a chanddo fynediad da a chanllawiau i roi cymorth i gleifion sydd ei angen. Roedd y practis hefyd wedi gosod larwm rhag ofn bod argyfwng gyda chlaf. Roedd toiled ar gyfer staff wedi'i leoli ar y llawr cyntaf.

Ar adeg ein hymweliad, roedd cyfleusterau i waredu ar gynhyrchion hylendid benywaidd yn y toiled ar gyfer cleifion ond nid yn y toiled ar gyfer staff. Gwnaethom argymell y dylai'r practis adolygu’r rheoliadau presennol o ran y ddarpariaeth hon a chynnig y cyfleusterau gofynnol.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen darparu cyfleusterau ar gyfer gwaredu gwastraff hylendid benywaidd yn hylan yn y toiled ar gyfer staff.

### Gwrando a dysgu o adborth

Dywedodd ychydig dros hanner y cleifion a gwblhaodd holiadur y byddent yn gwybod sut i leisio pryder neu gŵyn am y gwasanaethau roeddent yn eu derbyn yn y practis deintyddol.

Roedd gan y practis bolisi cwynion ar gyfer triniaeth ddeintyddol y GIG a phreifat. Lle bo'n berthnasol, roedd y polisi wedi'i alinio â phroses gwyno'r GIG

"Gweithio i Wella"[1] ac o ran triniaeth ddeintyddol breifat â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat Cymru 2008[2]. Roedd y polisi'n cael ei arddangos yn ddwyieithog yn y dderbynfa ac roedd ar gael ar wefan y practis.

Roedd y practis yn cynnal ffolder sy'n cynnwys cofnodion manwl cwynion a dderbyniwyd a chanlyniadau.

Dywedwyd wrthym nad oedd y practis yn cofnodi pryderon llafar/anffurfiol. Argymhellir fod yr holl adborth gan gleifion yn cael ei gofnodi i alluogi nodi unrhyw themâu ailadroddol. Byddem yn cynghori bod y practis yn cadw llyfr nodiadau yn y dderbynfa i gofnodi unrhyw adborth llafar.

Bob blwyddyn, mae'r practis yn ymgymryd â dadansoddiad o gwynion ac adborth cleifion i nodi unrhyw themâu. Caiff y canlyniadau eu hadrodd yn ôl i'r staff a'u trafod yn ystod cyfarfodydd y practis.

Roedd blwch awgrymiadau yn y man aros gyda gwahoddiad i gleifion gyflwyno sylwadau.

---

[1] "Gweithio i Wella" yw'r broses integredig ar gyfer codi pryderon, ymchwilio iddynt, a dysgu ohonynt. Materion a nodir o ddigwyddiadau diogelwch cleifion, cwynion ac, o ran cyrff y GIG yng Nghymru, honiadau am wasanaethau a ddarperir gan gorff cyfrifol yng Nghymru yw pryderon.

[2] www.dentalprotection.org/uk/help-advice/regulations/wales/private-dentistry-(wales)-regulations-2008

## Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

*Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth bod y practis yn darparu gofal deintyddol diogel ac effeithiol ar gyfer cleifion. Gwnaethom nodi bod cyfleusterau clinigol yn llawn cyfarpar ac roeddent yn weledol lân ac yn daclus. Gwelsom gontractau ar waith sy'n sicrhau bod y cyfleusterau a'r amgylchedd yn ddiogel ac yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda.

Roedd trefniadau ar waith ar gyfer defnyddio offer pelydr-X yn ddiogel ac roedd tystiolaeth o waith cynnal a chadw parhaus a rheolaidd.

Mae angen i'r practis sicrhau bod cofnodion meddygol cleifion yn cael eu cydlofnodi gan y deintydd a bod cynlluniau triniaeth yn cael eu cofnodi ar nodiadau cleifion.

### Gofal diogel

#### Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Yn gyffredinol, canfuom fod trefniadau ar waith i amddiffyn diogelwch a lles y staff sy'n gweithio yn y practis, a phobl sy'n ymweld ag ef.

Ni chodwyd unrhyw bryderon gan gleifion a gwblhaodd holiadur ynglŷn â glendid y practis deintyddol.

Roedd yr adeilad yn ôl pob golwg yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda ac roedd yr ystafelloedd triniaeth yn lân gydag offerynnau a chyfarpar yn cael eu storio'n briodol. Roedd y mannau anghlinigol yr un mor lân a thaclus.

Gwelsom fod profion dyfeisiau cludadwy'n cael eu cynnal yn rheolaidd er mwyn helpu i sicrhau bod dyfeisiau trydanol bach yn cael eu defnyddio'n ddiogel yn y practis. Gwelsom fod diffoddwyr tân ar gael mewn lleoliadau amrywiol o amgylch yr adeilad a gwnaethom nodi eu bod wedi eu gwasanaethu yn ystod y

flwyddyn ddiwethaf i sicrhau bod y cyfarpar yn gweithio'n briodol. Roedd cyfarwyddiadau ar gyfer yr allanfeydd brys yn weladwy.

Gwelsom fod contractau ar waith ar gyfer trosglwyddo a gwaredu gwastraff peryglus (clinigol), gwastraff nad yw'n beryglus (gwastraff domestig) a gwastraff amalgam yn ddiogel.

O dan Reoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd 2002, mae'n rhaid i gyflogwyr naill ai atal neu leihau datguddiad staff i sylweddau sy'n niweidiol i'w hiechyd. Gwelsom fod gan y practis restr wirio “Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd” a dalenni data diogelwch perthnasol ac roedd y rhain yn darparu gwybodaeth am sylweddau sy'n “beryglus i'w cyflenwi” a chyfarwyddiadau ar gyfer defnydd diogel mewn perthynas â sylweddau eraill a ddefnyddir yn y practis.

Roedd gan y practis lyfr Rheoliadau Adrodd am Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus (RIDDOR) a oedd yn cael ei gwblhau pan oedd damwain.

### Atal a rheoli heintiau

Roedd gan y practis gyfleusterau penodol ar gyfer glanhau a sterileiddio (dadheintio) offer deintyddol, yn unol ag argymhellion Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05.[3] Roedd yr ystafell i’w gweld yn lân ac yn daclus a gwelsom dystiolaeth fod mesurau atal a rheoli heintiau ar waith. Roedd gwaith glanhau cyn sterileiddio, a sterileiddio, yn cael ei wneud yn unol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru a chanllawiau'r gwneuthurwyr. Gwelsom fod y llyfrau cofnodi ar gyfer gwirio'r cyfarpar sterileiddio yn cael eu cynnal a bod polisi rheoli heintiau ar waith.

Roedd gan y staff fynediad at gyfarpar diogelu personol pan oeddent yn gweithio yn y mannau dadheintio.

Gwelsom dystiolaeth bod y practis wedi cynnal archwiliad rheoli heintiau yn ddiweddar yn unol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.

---

[3] Mae’r ddogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM 01-05) (Diwygiad 1) yn darparu canllawiau i weithwyr proffesiynol ar ddadheintio mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

## Rheoli meddyginiaethau

Roedd gan y practis weithdrefnau ar waith i ymdrin ag argyfyngau cleifion. Roedd yr holl staff wedi derbyn hyfforddiant o fewn y deuddeg mis diwethaf, ar sut i ddelio ag argyfyngau meddygol a sut i gyflawni adfywio cardio-pwlmonaidd. Roedd gan y practis swyddog cymorth cyntaf penodedig.

Roedd gan y staff gyffuriau ac offer dadebru brys priodol yn unol â chanllawiau Cyngor Dadebru'r DU.[4] Roedd y rhain yn cael eu storio'n ddiogel a gellid mynd atynt yn hawdd. Rydym yn argymell y dylai drws y cwpwrdd lle mae'r silindr ocsigen yn cael ei storio ddangos arwydd nwy "Cywasgedig".

Gwnaethom nodi bod gan y practis system ar waith i wirio bod cyffuriau a chyfarpar brys o fewn eu dyddiad ac yn barod i'w defnyddio. Dywedwyd wrthym fod y chwistrellau i roi anesthetig lleol yn cael eu cadw yn yr ystafelloedd triniaeth bob amser. Rydym yn argymell bod y rhain a'r cetris anesthetig yn cael eu diogelu ar ddiwedd pob diwrnod gwaith. Gwnaethom nodi bod padiau rhagnodi'n cael eu cadw'n ddiogel.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen i'r practis sicrhau bod chwistrellau a ddefnyddir ar gyfer rhoi anesthetig lleol a chetris anesthetig yn cael eu storio mewn lleoliadau diogel

Y practis i arddangos arwydd nwy "Cywasgedig" ar ddrws y cwpwrdd lle mae'r silindr ocsigen (rhan o'r pecyn cymorth cyntaf) yn cael ei gadw.

## Diogelu plant ac oedolion mewn perygl

Gwelsom fod gan y practis bolisïau a gweithdrefnau ar waith i hyrwyddo a diogelu lles plant ac oedolion sy'n agored i niwed, sy'n cynnwys manylion cyswllt yr asiantaethau diogelu perthnasol. Roedd gan y practis bolisi Adrodd ar Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod ar waith hefyd. Gwelsom dystiolaeth bod yr holl staff wedi cwblhau hyfforddiant yn y ddwy agwedd ar hyfforddiant, er enghraifft, amddiffyn plant ac amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed.

[4] Sefydlwyd Cyngor Dadebru'r DU i hyrwyddo canllawiau dadebru gwyddonol o ansawdd uchel sy'n berthnasol i bawb, ac i gyfrannu at achub bywydau trwy addysg, hyfforddiant, ymchwil, a chydweithredu.

Roedd trefniadau ar waith i staff leisio unrhyw bryderon a dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo y gallant wneud hyn yn y practis. Roedd gan bob aelod o staff dystysgrif y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

### Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Gwelsom fod yr holl ystafelloedd triniaeth yn weledol lân a bod ganddynt offer priodol er diogelwch cleifion a'r tîm deintyddol.

Roedd y cyfarpar radiolegol yn gweithio'n dda ac roedd y mannau a reolir wedi'u nodi. Gwelsom ddogfennaeth i ddangos fod y cywasgydd a'r peiriannau pelydr-X yn cael eu gwasanaethu'n rheolaidd. Roedd y ffeil amddiffyn rhag ymbelydredd yn cael ei chynnal a'i chadw ac roedd yn cynnwys yr holl wybodaeth hanfodol.

Yn unol â gofynion Rheoliadau Cyngor Deintyddol Cyffredinol [5] ac Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) (IR (ME) R) 2000[6] roedd yr holl staff clinigol wedi cwblhau'r hyfforddiant angenrheidiol.

## Gofal effeithiol

### Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Mae cleifion yn elwa ar bractis sy'n ceisio gwella'r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus. Gwelsom dystiolaeth bod gan y practis raglen o archwiliadau ar waith mewn perthynas â rheoli heintiau, rhagnodi gwrthfiotigau, cofnodion clinigol a radiograffau.

### Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Dywedwyd wrthym fod y deintyddion yn cyfarfod yn anffurfiol at ddiben adolygiadau gan gymheiriaid. Byddem yn argymell trefnu cyfarfodydd ffurfiol a rheolaidd rhwng y deintyddion at y diben hwn.

---

[5] Cyngor Deintyddol Cyffredinol – http://www.gdc-uk.org/Pages/default.aspx

[6] http://www.legislation.gov.uk/uksi/2000/1059/pdfs/uksi_20001059_en.pdf

Dywedwyd wrthym fod y practis wedi gwneud cais am offeryn datblygu ymarfer Deoniaeth Cymru, sef y Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth[7]. Mae'r Offeryn Matrics Aeddfedrwydd yn offeryn datblygu tîm practis deintyddol i ganiatáu i'r tîm ganolbwyntio ar y ffordd y maent yn gweithio.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Y deintyddion i drefnu cyfarfodydd ffurfiol a rheolaidd at ddiben adolygiad gan gymheiriaid.

## Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd gan y practis gofnodion electronig a gwnaethom nodi bod y rhain yn cael eu storio'n briodol i sicrhau diogelwch data personol. Roedd copïau wrth gefn o ffeiliau electronig yn cael eu cadw'n rheolaidd. Roedd ffeiliau papur etifeddol yn cael eu storio mewn cwpwrdd ar y llawr cyntaf. Gwnaethom nodi nad oedd y cwpwrdd hwn wedi'i ddiogelu a gwnaethom argymell bod y cwpwrdd hwn yn cael ei gadw dan glo bob amser.

Roedd gan y practis nifer o bolisïau a gweithdrefnau priodol ar waith, gan gynnwys polisi diogelu data, polisi diogelwch data a pholisi rhyddid gwybodaeth.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Y practis i sicrhau bod holl gofnodion papur etifeddol yn cael eu storio'n ddiogel.

## Cadw cofnodion

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion cleifion. Canfuom fod rhai hepgoriadau mewn rhai achosion, sef:

- Nid oedd hanesion meddygol yn cael eu cydlofnodi gan y deintydd.

---

7 https://dental.walesdeanery.org/improving-practice-quality/maturity-matrix-dentistry

- Nid oedd cynlluniau triniaeth yn cael eu cofnodi yn nodiadau’r cleifion.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Yn unol â safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion, dylai'r practis sicrhau bod cofnodion cleifion yn cael eu cwblhau adeg pob ymweliad claf er mwyn cofnodi:

- Cynlluniau triniaeth
- Mae hanesion meddygol yn cael eu cydlofnodi gan y deintydd

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

*Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi darparu gofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae gwasanaethau'n adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain ochr yn ochr â'r Safonau Iechyd a Gofal.*

Canfuom dystiolaeth o arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir.

Canfuom fod gan y practis ystod gynhwysfawr o bolisïau a gweithdrefnau perthnasol ar waith i sicrhau bod y practis a'r staff yn cael eu cefnogi ac yn ymrwymo i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel i'w gleifion.

Roedd gweithdrefnau rheoli cadarn ar waith er budd y staff, gan gynnwys arfarniadau staff blynyddol a chyfarfodydd staff rheolaidd.

Roedd yr holl staff yn derbyn yr hyfforddiant angenrheidiol i'w rolau a'u cyfrifoldebau.

### Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Mae Cwmbran Dental Spa yn eiddo i'r prif ddeintydd. Mae'r dyletswyddau gweinyddol o ddydd i ddydd yn cael eu goruchwylio gan reolwr y practis gyda chefnogaeth y prif ddeintydd.

Roedd y practis wedi'i drefnu'n dda gyda chadw cofnodion da ym mhob maes. Gwelsom fod amrediad eang o bolisïau a gweithdrefnau ar waith i sicrhau diogelwch staff a chleifion. Gwnaethom nodi bod y ffolder polisïau yn cynnwys dalen flaen gyda llofnodion rhai o staff y practis yn dangos bod y polisïau wedi cael eu darllen a'u deall.

Roedd pob aelod o'r staff clinigol wedi'i gofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, ac yn meddu ar yswiriant indemniad priodol. Roedd y deintyddion i gyd yn darparu rhai gwasanaethau deintyddol preifat a gwelsom eu tystysgrifau cofrestru yn cael eu harddangos yn glir fel sy'n ofynnol gan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008.

## Staff ac adnoddau

### Gweithlu

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn mwynhau gweithio yn y practis a gwelsom berthynas gref rhwng holl staff y practis. Gwnaethom nodi bod gan bob aelod o staff gontract cyflogaeth a gwelsom dystiolaeth ar ffeiliau staff bod gan y practis raglen ymsefydlu ar waith. Roedd llawlyfr i weithwyr yn cael ei roi i bob aelod o staff a oedd yn cynnwys amrywiaeth o wybodaeth gan gynnwys gofynion hyfforddi, telerau ac amodau cyflogaeth ac ystod o bolisïau. Dywedwyd wrthym, pan gaiff y llawlyfr ei ddiweddaru, y bydd copi diwygiedig yn cael ei ddarparu i staff. Roedd arfarniadau staff yn cael eu cynnal yn flynyddol a ffurflenni wedi'u cwblhau yn cael eu cadw ar ffeiliau staff.

Gwelsom dystysgrifau a oedd yn dangos tystiolaeth bod yr holl staff wedi mynychu hyfforddiant ar ystod o bynciau sy'n berthnasol i'w swyddogaethau ac yn bodloni gofynion Datblygiad Proffesiynol Parhaus.

Mae'r practis yn cynnal cyfarfod staff bob chwe mis. Yn dilyn pob cyfarfod, mae cofnodion yn cael eu drafftio a'u cylchredeg ymhlith holl staff. Yn ogystal, bydd y practis yn cynnal sesiynau ôl-drafodaeth anffurfiol yn ddyddiol ac yn gallu dosbarthu gwybodaeth a newyddion y practis trwy ap cyfryngau cymdeithasol.

Mae'r Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat yn ei gwneud yn ofynnol i bob deintydd sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat yng Nghymru feddu ar dystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a gyflwynwyd yn ystod y tair blynedd ddiwethaf. Gwelsom dystiolaeth bod gwiriadau clirio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi'u cynnal ar bob aelod o staff clinigol a staff anghlinigol.

Mae'n ofynnol i staff clinigol gael eu himiwneiddio rhag Hepatitis B i amddiffyn cleifion a'u hunain rhag heintiau. Darparodd y practis brawf o imiwnedd i bob aelod o staff.

Dywedwyd wrthym y bydd y practis yn defnyddio nyrsys deintyddol asiantaeth yn achlysurol. Mae'r rhain yn cael eu harchebu trwy asiantaeth a fydd yn darparu tystiolaeth o hyfforddiant priodol, cymhwysedd a gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

# 4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, mae’r rhain wedi'u manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a uwchgyfeiriwyd ac a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn nodi bod angen i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella yn ein hysbysu o'r camau y mae’n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni

- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru

- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau’n systemig ar draws mannau eraill o fewn y sefydliad ehangach

- Rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi derbyn sylw.

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# 5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Mae arolygiadau deintyddol fel arfer yn rhai lle rhoddir rhybudd. Mae practisau deintyddol yn derbyn o leiaf 12 wythnos o rybudd ymlaen llaw ynglŷn ag arolygiad. Mae hyn er mwyn rhoi trefniadau ar waith i sicrhau bod y practis yn rhedeg yn unol â'r arfer, a bod yr arolygiad yn amharu ar gleifion cyn lleied ag y bo modd.

Mae adborth yn cael ei ddarparu i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Rydym yn gwirio sut mae practisau deintyddol yn bodloni Safonau Iechyd a Gofal 2015. Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru gydag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011. Lle bo hynny'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, megis Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Ceir gwybodaeth bellach am sut mae AGIC yn arolygu practisau deintyddol a'r GIG ar ein gwefan.

## Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod yr arolygiad. Oherwydd yr effaith (bosibl) ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon uniongyrchol a nodwyd | Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion | Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder | Sut cafodd y pryder ei ddatrys |
|---|---|---|---|
| Ni welwyd unrhyw bryderon dybryd yn ystod yr arolygiad hwn | | | |

## Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

## Gwasanaeth: Cwmbran Dental Spa

## Dyddiad yr arolygiad: 12 Chwefror 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd.

| Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Ni nodwyd unrhyw broblemau sicrwydd ar unwaith. | | | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

### Cynrychiolydd y gwasanaeth:

### Enw (llythrennau bras):

### Swydd:

### Dyddiad:

## Atodiad C – Cynllun gwella

### Gwasanaeth: Cwmbran Dental Spa

### Dyddiad yr arolygiad: 12 Chwefror 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd profiad y claf** | | | | |
| Y practis i gynnal preifatrwydd ac urddas cleifion wrth dderbyn triniaeth trwy sicrhau na fyddai'n bosib edrych i mewn i'r ystafelloedd triniaeth o'r tu allan. | 4.1 Gofal ag urddas | Trefniadau ar gyfer gosod trelis ar draws bylchau yn y gwrych sydd wrth ymyl gardd y cymydog.<br>Gât i gael ei gosod ar ochr y practis i atal y cyhoedd rhag cael mynediad i'r ardd gefn, wedi'i diogelu gyda chlo. | Sharlene Parmar-Anwar | 5 mis |
| Mae angen darparu cyfleusterau ar gyfer gwaredu gwastraff hylendid benywaidd yn hylan yn y toiled staff. | 6.2 Hawliau pobl | Ychwanegu'r eitem hon at ein contract gwastraff presennol | Sharlene Parmar-Anwar | Un mis |
| **Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol** | | | | |
| Mae angen i'r practis sicrhau bod chwistrellau | 2.6 Rheoli | Mae larwm ar y practis ac mae'n ddiogel | Kathryn Cook | Ar unwaith |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| sy'n cael eu defnyddio ar gyfer gweinyddu anesthetig lleol yn cael eu storio mewn lleoliadau diogel<br>. | meddyginiaethau | ac wedi'i gloi yn ystod egwyl, fodd bynnag, fel rhagofal ychwanegol, bydd yr eitemau hyn yn cael eu storio yn yr ystafell storio sy'n cael ei chloi â chod. | | |
| Y practis i arddangos arwydd nwy "Cywasgedig" ar ddrws y cwpwrdd lle mae'r silindr ocsigen (rhan o'r pecyn argyfwng) yn cael ei gadw | | Wedi'i archebu ar-lein ar unwaith ar ddiwrnod yr arolygiad ac i gael ei osod ar ôl ei dderbyn | Sharlene Parmar-Anwar | Cwblhawyd |
| Y deintyddion i drefnu cyfarfodydd ffurfiol a rheolaidd at ddiben adolygiad cymheiriaid. | 3.3 Gwella Ansawdd, Ymchwil ac Arloesedd | Bydd rheolwr y practis yn trefnu dyddiad cyfarfod bob 3 mis ar gyfer deintyddion ymlaen llaw | Kathryn Cook | Tri mis |
| Y practis i ystyried gwneud cais am offeryn datblygu ymarfer Deoniaeth Cymru, sef y Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth. | | Mae gennym ddyddiad wedi'i roi mewn dyddiadur gyda thiwtor y Ddeoniaeth ar gyfer hyn eisoes | Sharlene Parmar-Anwar | Eisoes ar waith |
| Y practis i sicrhau bod yr holl gofnodion papur etifeddol yn cael eu storio'n ddiogel. | 3.4 Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu | Mae'r cofnodion papur sydd wedi'u harchifo yn cael eu cadw mewn man staff yn unig heb fynediad i'r cyhoedd. Bydd pad mynediad clo cod yn cael ei osod i'r cwpwrdd yn lle'r system clo allwedd sydd ar waith yn bresennol er mwyn iddo gael ei gadw wedi'i gloi yn | Sharlene Parmar-Anwar | Dau fis |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | | gyson | | |
| Yn unol â safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion, y practis i sicrhau bod cofnodion cleifion yn cael eu cwblhau yn ystod pob ymweliad claf er mwyn cofnodi:<br><br>Cynlluniau triniaeth<br><br>Bod hanesion meddygol yn cael eu llofnodi gan y deintydd | 3.5 Cadw cofnodion | • Mae gennym bolisi a phrotocol sydd eisoes ar waith ar gyfer cwblhau cynlluniau triniaeth, ond gan y canfuwyd fod rhai heb eu cwblhau, rydym wedi trefnu hyfforddiant staff i sicrhau eu bod bob amser yn cael eu rhoi i gleifion i'w llofnodi, yn cael eu sganio i mewn i nodiadau'r cleifion, yna'n cael eu rhoi i'r claf ar gyfer eu cofnodion hwy.<br><br>• Roedd deintyddion yn adolygu hanes meddygol a dogfennau yn nodiadau cyfrifiadur y claf eu bod wedi eu gwirio, ond byddwn nawr yn sicrhau ein bod ni hefyd yn gorfforol gydlofnodi'r copi papur cyn iddo gael ei sganio i gofnod y claf | Kathryn Cook<br><br>Sharlene Parmar-Anwar | Un mis<br><br>Ar unwaith |

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

**Cynrychiolydd y gwasanaeth**

**Enw (llythrennau bras):SHARLENE PARMAR-ANWAR**

**Swydd: PENNAETH Y PRACTIS**

**Dyddiad: 06/04/18**